**Nifer: WG53699**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Newidiadau Arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed - 2025

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2025 ar y cynigion i newid safonau perthnasol o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL (h) Hawlfraint y Goron xxxx
ISBN Digidol 978-1-83745-176-0

## Trosolwg

Mae ymgynghoriad 2025 ar y newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig yn nodi newidiadau arfaethedig i'r fformat a'r safonau penodol. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr am rannu eu barn â ni.

## Camau Gweithredu Angenrheidiol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: gofalplantachwarae@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o ddogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio: newidiadau arfaethedig 2025]

Cyflwyniad ..... 4
1. Cynigion ..... 4
2. Ymgysylltu ..... 6
3. Crynodeb o'r ymatebion ..... 7
4. Ymatebion i'r Cwestiynau Ymgysylltu ..... 30
5. Y Camau Nesaf ..... 42
**Atodiad: Rhestr ymatebwyr** ..... 44

## Cyflwyniad

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig yn gymwys i warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd ar gyfer plant hyd at 12 oed. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth eang o fathau gwahanol o ofal plant, gan gynnwys gwarchod plant, crèche, gofal dydd llawn a sesiynol, gofal plant y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi'u cynllunio i gynorthwyo darparwyr i fodloni Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (2010) fel y'u diwygiwyd.

Cyhoeddodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ymgynghoriad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar 17 Medi 2025 am gyfnod o 12 wythnos.

Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol o ganlyniad i argymhellion o'r: Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig (2019); Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (MRoP) (2023); a'r Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant (2023), ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd yn ystod digwyddiadau cyn-ymgynghori â'r sector.

Gofynnwyd cwestiynau ymgysylltu hefyd fel rhan o'r ymgynghoriad i helpu i lywio gwaith polisi yn y dyfodol ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd gwaith sy'n cael eu datblygu.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Rhagfyr 2025. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 1. Cynigion

Rhoddodd yr ymatebwyr adborth ar y newidiadau arfaethedig canlynol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yn ogystal â barn ynghylch a oedd unrhyw newidiadau eraill y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu gwneud i'r Safonau a ddiweddarwyd a'r canllawiau cysylltiedig.

Ymgynghorwyd ar y rhannau canlynol o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol:

### 1.1 Strwythur a chynllun y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Mewn ymateb i argymhellion a wnaed yn yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn 2019, gwnaethom ymgynghori ar un safon enghreifftiol (Safon 12 Bwyd a Diod) i ddangos sut y gellid cyflwyno'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar www.llyw.cymru i wella strwythur, cynllun a phrofiad y defnyddiwr.

### 1.2 Darpariaeth o ansawdd uchel, diweddariad i'r: bennod *"Beth rydym yn ei olygu wrth ddarpariaeth o ansawdd uchel?"*

Fel rhan o'r weledigaeth tymor hwy ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, cynhwyswyd cynnig i ddiweddaru'r bennod ragarweiniol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol -*“Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel?"*, er mwyn cryfhau'r wybodaeth a'r gofynion ymhellach o ran ansawdd, gan helpu i ymgorffori dull o lunio polisïau sy'n canolbwyntio ar hawliau plant.

### 1.3 Diffiniad o chwarae mynediad agored

Datblygwyd diffiniad wedi'i ddiweddaru o chwarae mynediad agored ac ymgynghorwyd arno yn dilyn argymhelliad 11.3 o Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

### 1.4 Chwarae mynediad agored

Datblygwyd dau gynnig i gefnogi safonau mwy cymesur ar gyfer lleoliadau chwarae mynediad agored, gan adlewyrchu natur unigryw y ddarpariaeth hon gan ystyried argymhellion Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Y rhain oedd:

- Cynnig ar gyfer Safon 10: Gofal Iechyd – Cymorth Cyntaf Chwarae Mynediad Agored i newid gofynion ar gyfer Cymorth Cyntaf Pediatrig.
- Cynnig ar gyfer Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd) Cymwysterau Staff Eraill (GD) i wneud newidiadau i'r cymwysterau gofynnol ar gyfer staff eraill mewn darpariaeth Chwarae Mynediad Agored.

### 1.5 Safon 11: Meddyginiaeth, ac atodiad ategol - Canllawiau ar gyfer gweinyddu parasetamol hylifol pan fydd plant yn mynd yn sâl yn y lleoliad cofrestredig

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr 011/2024 ym mis Rhagfyr 2024 mewn ymateb i alwadau gan y sector ac Arolygiaeth Gofal Cymru am fwy o eglurder ynghylch rhoi parasetamol hylifol heb bresgripsiwn. Cymerwyd y cam hwn ar frys i ddiogelu iechyd a llesiant plant pan fyddant yn mynd yn sâl wrth fynychu lleoliadau gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig (“lleoliadau cofrestredig”). Cynigiwyd newidiadau i Safon 11 ar gyfer Meddyginiaeth gydag Atodiad ategol i ddarparu canllawiau manwl.

### 1.6 Defnydd o staff mewn gofal dydd

Y cynnig oedd ceisio barn ar eiriad ychwanegol i'w ychwanegu at Safon 13 (GD): Person addas, i gynnig eglurhad ar y defnydd staff ar draws y lleoliad. Darparwyd gwybodaeth mewn achosion lle gallai lleoliadau gynnwys staff ychwanegol, uwchlaw'r cymarebau oedolion: plant gofynnol (i helpu i ddiwallu anghenion unigol plant).

### 1.7 Cynorthwywyr gwarchod plant

Nododd Coram PACEY Cymru fod gwarchodwyr plant sy'n gweithio gyda chynorthwywyr yn cael anawsterau wrth recriwtio a chadw staff, gan dynnu sylw at yr angen am fwy o hyblygrwydd. Er mwyn cefnogi parhad yn y sector, y cynnig yw caniatáu i gynorthwywyr gwarchod plant ddechrau gweithio heb gymhwyster, ar yr amod eu bod yn ei gyflawni o fewn chwe mis a'u bod yn cael eu goruchwylio bob amser tan hynny. Byddai hyn yn gofyn am newidiadau i Safon 13 (Gwarchodwyr Plant) Person Addas: Gwarchodwr Plant. Yn ogystal, mae angen canllawiau cliriach ynghylch pa mor hir y gellir gadael cynorthwywyr yn gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain, gyda therfyn arfaethedig o ddwy awr i gefnogi arferion diogel a chysondeb.

### 1.8 Cymarebau ar gyfer gwarchod plant

Nododd Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant (2023) yr angen am fwy o hyblygrwydd yn y ffordd y mae gwarchodwyr plant yn cymhwyso cymarebau staffio'r Safonau Gofal Cenedlaethol ar adegau pontio allweddol yn ystod y dydd, er enghraifft cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod gofal cofleidiol. Yn dilyn ystyriaeth fanwl gyda Grŵp Cynghori y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, datblygwyd cynigion i gyflwyno hyblygrwydd cymesur gan sicrhau bod llesiant plant yn parhau i fod o’r pwys pennaf.

Cynigiodd yr ymgynghoriad welliannau i Safon 15 (Gwarchod Plant: Cymarebau (Gwarchodwyr Plant).

## 2. Ymgysylltu

Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos rhwng 17 Medi a 10 Rhagfyr 2025. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y tudalennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru. Gallai'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, dros e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gwahoddwyd darparwyr gofal plant a chwarae i ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad, gyda rhai hefyd yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws ar-lein a drefnwyd ar y cyd gan gynrychiolwyr Cwlwm, Chwarae Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru. Dewiswyd cyfranogwyr yn benodol gan eu priod sefydliadau. Roedd y sesiynau hyn, dan arweiniad swyddogion Llywodraeth Cymru, yn canolbwyntio ar gwestiynau dethol o'r ymgynghoriad sy'n berthnasol i ddarparwyr lleoliadau gwarchod plant, gofal dydd a chwarae mynediad agored, ac ni ofynnwyd pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad ym mhob grŵp ffocws. Roedd y dull hwn yn fodd o gasglu data ansoddol yn uniongyrchol gan randdeiliaid. Anogwyd pawb a oedd yn bresennol hefyd i lenwi'r ffurflen ymateb ffurfiol ar gyfer yr ymgynghoriad.

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd eu barn ac a ddaeth i sesiynau'r grwpiau ffocws.

## 3. Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 154 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r rhain, darparwyd 122 drwy'r arolwg ar-lein a 32 drwy e-bost. Dewisodd 97 o'r ymatebwyr aros yn ddienw. Cafodd yr ymgynghoriad hwn ymatebion o bob rhan o'r sector gofal plant a chwarae, gan gynnwys gwarchodwyr plant, darparwyr gofal dydd, cynrychiolwyr sefydliadau'r trydydd sector, awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Plant yng Nghymru ac Estyn.

Dyma nifer yr ymatebwyr yn ôl math, (ni roddodd 2 ohonynt fanylion):

| Ymateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Darparwr Gofal Plant neu Chwarae | 72.4% | 110 |
| Awdurdod Lleol | 13.8% | 21 |
| Arall | 5.3% | 8 |
| Corff cynrychioliadol | 5.3% | 8 |
| Rhiant/gofalwr | 2.6% | 4 |
| Aelod o'r cyhoedd | 0.7% | 1 |

Nododd 98% o'r ymatebwyr eu bod yn byw yng Nghymru, ac roedd gan 87% fuddiant busnes yng Nghymru

Ni atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad ac ni ddarparwyd sylwadau ar y cwestiynau bob amser.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru rai digwyddiadau grwpiau ffocws hefyd ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gyda gwasanaethau gofal plant a chwarae mewn partneriaeth â sefydliadau Cwlwm a Chwarae Cymru. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi o fewn y ffurflen ymgynghori a oeddent hefyd wedi bod i grŵp ffocws. Cafwyd cyfanswm o 151 o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw, rydw i hefyd wedi bod i grŵp ffocws mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn | 18.5% | 28 |
| Na, nid ydw i wedi bod i grŵp ffocws ar yr ymgynghoriad hwn | 81.5% | 123 |

Mae'n bwysig nodi bod rhai ymatebwyr wedi dewis 'ydw' cyn i unrhyw grwpiau ffocws gael eu cynnal ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd grwpiau ffocws eraill hefyd yn cael eu cynnal gan swyddogion a phartneriaid Llywodraeth Cymru tua'r adeg hon fel rhan o'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a'r sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â chwestiynau'r ymgynghoriad, ynghyd â chrynodeb o'r adborth ansoddol gan y grwpiau ffocws.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y cynllun yn enghraifft Safon 12: Bwyd a Diod a ddarperir yn glir?**

Cafwyd cyfanswm o 139 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

| **Opsiynau o ran ymateb** | **Cyfran** | **Nifer** | **Nifer y sylwadau a gafwyd** |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 87.8% | 122 | 47 |
| Anghytuno | 1.4% | 2 | 0 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 8.6% | 12 | 1 |
| Ddim yn gwybod | 2.2% | 3 | 0 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 1 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (87.8%) yn cytuno bod y cynllun yn yr enghraifft o Safon 12: Bwyd a Diod a ddarparwyd yn glir.

Gwnaeth 49 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn gefnogol ac yn nodi bod y cynllun newydd yn glir, yn hawdd ei ddarllen, yn fwy hygyrch, ac yn ddealladwy. Maent yn gwerthfawrogi'r strwythur rhesymegol, y penawdau clir, a'r ffordd y cyflwynir y gofynion. Bydd ychwanegu'r cynllun newydd yn helpu lleoliadau i ddeall disgwyliadau, gwella cydymffurfiaeth, ac yn ei gwneud yn haws i weithredu safonau ar lefel ymarferol (47).
- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn falch o weld llais y plentyn a chanlyniadau llesiant yn cael eu cynnwys ar ddechrau pob safon. Nodwyd bod hyn yn sicrhau bod y ddogfen yn canolbwyntio’n fwy ar y plentyn ac yn cyd-fynd â gwerthoedd y sector (13).
- Nododd rhai o'r ymatebwyr y gallai'r ddogfen fod yn llethol i rai defnyddwyr, yn enwedig darparwyr newydd (3).

Roedd yr holl awdurdodau lleol, partneriaid Cwlwm, Chwarae Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ac Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i gynllun arfaethedig y safon, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu pob safon yn y fformat hwn. Rydym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, y broses weithredu, a gwaith polisi ar gyfer y dyfodol.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod cynnwys y rheoliadau cysylltiedig yn y safonau o gymorth?**

Cafwyd cyfanswm o 139 o ymatebion i'r cwestiwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 88.5% | 123 | 47 |
| Anghytuno | 1.4% | 2 | 0 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 8.6% | 12 | 1 |
| Ddim yn gwybod | 1.4% | 2 | 0 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 1 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (88.5%) yn cytuno bod cynnwys y rheoliadau cysylltiedig yn y safonau yn ddefnyddiol.

Gwnaeth 49 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn gefnogol o'r cynnig i gynnwys rheoliadau cysylltiedig yn y safonau gan y byddai hynny'n gwneud y disgwyliadau'n gliriach ac yn haws eu dilyn, ac yn arbed amser trwy gael yr holl wybodaeth mewn un lle. Nododd y sylwadau fod cael rheoliadau ochr yn ochr â safonau yn helpu gyda chroesgyfeirio, yn sicrhau cysondeb, ac yn cefnogi cydymffurfiaeth a hygyrchedd (38).
- Nododd rhai o'r ymatebwyr y dylai unrhyw ddiweddariadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gael eu cyfleu'n glir, ac awgrymwyd y dylid darparu cofnod o'r newidiadau (7).

Roedd yr holl awdurdodau lleol, partneriaid Cwlwm, Chwarae Cymru, GCC ac AGC yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Gofynnwyd y cwestiwn hwn ym mhob un o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd.

Roedd pob un o'r cyfranogwyr yn cefnogi'r cynnig i gynnwys dolenni uniongyrchol i ddogfennaeth a rheoliadau o fewn pob safon, gan dynnu sylw at y ffaith bod y dull hwn yn gwella defnyddioldeb, eglurder a hygyrchedd. Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod cyfuno adnoddau mewn un lle yn arbed amser, yn lleihau straen, ac yn

symleiddio cydymffurfiaeth trwy ddileu'r angen i chwilio ar draws sawl ffynhonnell. Nodwyd y byddai canoli adnoddau yn arbennig o fuddiol i gofrestreion newydd a gwarchodwyr plant, gan y byddai'n hwyluso dealltwriaeth a hyder wrth fodloni gofynion. At ei gilydd, ystyriwyd bod y dull yn fuddiol ar gyfer gwella ansawdd a hwyluso'r broses o weithredu arferion gorau o fewn lleoliadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu pob safon yn y fformat hwn.  Rydym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, y broses weithredu, a gwaith polisi ar gyfer y dyfodol.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod o gymorth cynnwys dolenni i ddogfennau ym mhob safon sy'n helpu i wella ansawdd?**

Cafwyd cyfanswm o 140 o ymatebion i'r cwestiwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 92.1% | 129 | 47 |
| Anghytuno | 2.1% | 3 | 1 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3.6% | 5 | 1 |
| Ddim yn gwybod | 2.1% | 3 | 0 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 1 |

Roedd cytundeb eang â'r cynnig gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (92.1%) yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol cael dolenni i ddogfennaeth er mwyn cefnogi'r broses o wella ansawdd o fewn pob safon.

Gwnaeth 49 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn.  Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn gefnogol ac yn nodi bod cael dolenni i ddogfennaeth ategol yn ddefnyddiol gan fod hynny'n ei gwneud hi’n haws rhoi safonau ar waith, dod o hyd i wybodaeth, a gwella ansawdd a datblygiad proffesiynol (48).
- Nododd nifer bach o'r ymatebwyr bryderon y gallai fod gormod o ddolenni neu ormod o wybodaeth, a allai deimlo'n llethol, yn enwedig i ddarparwyr newydd (2).

Roedd yr holl awdurdodau lleol, partneriaid Cwlwm, Chwarae Cymru, GCC ac AGC yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Gofynnwyd y cwestiwn hwn ym mhob un o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd.

Roed pob un o'r cyfranogwyr yn cefnogi'r cynnig i gynnwys dolenni uniongyrchol i ddogfennaeth a chanllawiau o fewn pob safon, a nodwyd gwelliannau sylweddol o ran defnyddioldeb, eglurder a hwylustod. Ystyriwyd bod cyflwyno dogfennau canllaw pellach yn fodd o gefnogi cydymffurfiaeth reoliadol. Ar y cyfan, nododd y cyfranogwyr y byddai hyn yn gwella ansawdd ac yn gwneud y broses o gynnal safonau'n symlach.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid i gynnwys dogfennau ategol o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Rydym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, y broses weithredu, a gwaith polisi yn y dyfodol.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylem ddiweddaru pennod 'Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel' yn y Safonau er mwyn cyd-fynd yn well ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar?**

Cafwyd cyfanswm o 139 o ymatebion i'r cwestiwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 84.9% | 118 | 52 |
| Anghytuno | 1.4% | 2 | 1 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 10.8% | 15 | 2 |
| Ddim yn gwybod | 2.9% | 4 | 0 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 0 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (84.9%) yn cytuno y dylem ddiweddaru'r bennod 'Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel' er mwyn cyd-fynd yn well ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

Gwnaeth 55 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn.  Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn cefnogi'r cynnig a nodwyd y byddai cysoni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn helpu i sicrhau cysondeb ac eglurder, ynghyd â dealltwriaeth gyffredin o ddarpariaeth o ansawdd uchel ar draws y sector (52).
- Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr, gan gynnwys corff cynrychioliadol, am eglurder ynghylch y modd y bydd yn cyd-fynd ag offer sicrhau ansawdd yr awdurdodau lleol a mynediad at hyfforddiant, ac a ellid cynnwys enghreifftiau ymarferol o sut olwg sydd ar ddarpariaeth o ansawdd uchel mewn lleoliadau gwahanol (11).

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, partneriaid Cwlwm, Chwarae Cymru, GCC ac AGC yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Gofynnwyd y cwestiwn hwn ym mhob un o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd.

Roedd pob un o'r cyfranogwyr yn cefnogi'r cynnig i ddiweddaru'r bennod 'Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel' yn y Safonau er mwyn cyd-fynd yn well ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Roedd y cyfranogwyr o'r farn y byddai hyn yn sicrhau canllawiau cliriach, gan ei gwneud hi'n haws esbonio newidiadau i arferion yn ystod arolygiadau. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth rhieni am eu harbenigedd, a fyddai'n cefnogi dealltwriaeth ac yn gwella enw da'r proffesiwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru'r bennod 'Beth rydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel' er mwyn cyd-fynd ymhellach ag egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Rydym wedi ystyried sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r diweddariad i'r diffiniad o Chwarae Mynediad Agored?**

Cafwyd cyfanswm o 127 o ymatebion i'r cwestiwn.

| **Opsiynau o ran ymateb** | **Cyfran** | **Nifer** | **Nifer y sylwadau a gafwyd** |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 61.4% | 78 | 51 |
| Anghytuno | 4.7% | 6 | 4 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 26.8% | 34 | 11 |
| Ddim yn gwybod | 7.1% | 9 | 1 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 4 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (61.4%) yn cytuno â'r diweddariad i'r diffiniad o Chwarae Mynediad Agored.

Gwnaeth 71 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau yn cefnogi'r diffiniad diwygiedig ac yn nodi ei fod yn gliriach, yn fwy cynhwysfawr, ac yn adlewyrchu cyd-destun gwaith chwarae mynediad agored yn well, gan fod iddo ymagwedd ymarferol, hygyrch a chynhwysol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y diffiniad wedi'i ddatblygu ar y cyd â Chwarae Cymru a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC), ac wedi'i gysoni â'r canllawiau statudol 'Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae' (32).
- Mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryderon ynghylch priodoldeb caniatáu i blant ifanc (e.e., mor ifanc â 5 oed) adael ar eu pen eu hunain, a'r angen am derfynau oedran a mesurau diogelwch (8).

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, holl bartneriaid Cwlwm, Chwarae Cymru, GCC ac AGC yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig a'r ffaith bod y diffiniad wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Chwarae Cymru a Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC), gan adlewyrchu canllawiau statudol 'Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae' ar gyfer awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r diffiniad a ddiweddarwyd. Rydym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig. Bydd sylwadau'r partneriaid ynghylch plant 5 oed sy'n mynychu lleoliadau chwarae mynediad agored yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses weithredu ac yn ystod gwaith polisi yn y dyfodol.

**Cwestiwn 6. O ran Hyfforddiant Cymorth Cyntaf - Chwarae Mynediad Agored (Safon 10), rydym yn cynnig y byddai'n fwy cymesur ei gwneud yn ofynnol i o leiaf un person sydd â chymhwyster cymorth cyntaf llawn fod ar y safle bob amser, a bod trefniadau wrth gefn ar gyfer cymwysterau cymorth cyntaf staff ychwanegol, gan weithredu yn ôl risg y mathau o weithgareddau yr ymgymerir â nhw. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

Cafwyd cyfanswm o 131 o ymatebion i'r cwestiwn.

| **Opsiynau o ran ymateb** | **Cyfran** | **Nifer** | **Nifer y sylwadau a gafwyd** |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 78.6% | 103 | 38 |
| Anghytuno | 6.9% | 9 | 9 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 12.2% | 16 | 8 |
| Ddim yn gwybod | 2.3% | 3 | 0 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 0 |

Roedd cytundeb cyffredin â'r cynnig gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (78.6%) yn cytuno â'r ffordd gymesur o ymdrin â Hyfforddiant Cymorth Cyntaf ar gyfer Chwarae Mynediad Agored.

Gwnaeth 55 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn gefnogol ac yn cytuno y dylai o leiaf un person â chymhwyster cymorth cyntaf llawn fod yn bresennol bob amser, gan ystyried hyn yn ofyniad sylfaenol rhesymol, wedi'i ategu gan asesiad risg a threfniadau wrth gefn. Nododd yr ymatebwyr fod angen dull cymesur er mwyn sicrhau cynaliadwyedd lleoliadau chwarae mynediad agored, yn enwedig yn achos darpariaeth dymhorol (38).
- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y dylai o leiaf dau aelod o'r staff, neu hyd yn oed pob aelod o'r staff, fod wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf er mwyn sicrhau diogelwch a darpariaeth ddigonol mewn argyfyngau, yn hytrach nag un person yn unig. Ychwanegwyd, yn unol ag arfer gorau neu mewn gweithgareddau risg uchel, y dylai fod mwy nag un person wedi'i hyfforddi, ac y dylai trefniadau wrth gefn clir fod ar waith (11).

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, y rhan fwyaf o bartneriaid Cwlwm, Chwarae Cymru, GCC ac AGC yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Gofynnwyd y cwestiwn hwn yng ngrŵp ffocws Chwarae Cymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cefnogi dull mwy hyblyg o ymdrin â gofynion Cymorth Cyntaf mewn darpariaeth Chwarae Mynediad Agored, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd cydweddu mesurau diogelwch â sefyllfaoedd bywyd go iawn, blaenoriaethu diogelwch plant, a chaniatáu hyblygrwydd gweithredol. Ystyriwyd bod yr addasiadau arfaethedig yn gadarnhaol, a'u bod yn debygol o wella ansawdd ac ymarferoldeb.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig ac argymhellion yn Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae o ran dull cymesur, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r newid arfaethedig i'r gofynion cymorth cyntaf ar gyfer gwasanaethau Chwarae Mynediad Agored. Nodwn y sylwadau a ddarparwyd ynghylch yr angen am ddull asesu risg er mwyn sicrhau diogelwch plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau a gynigir ar gyfer dull gweithredu cymesur o ran Safon 13: Person addas Staff Eraill (Cymwysterau) ar gyfer Chwarae Mynediad Agored?**

Cafwyd cyfanswm o 126 o ymatebion i'r cwestiwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 67.5% | 85 | 29 |
| Anghytuno | 4.0% | 5 | 3 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 21.4% | 27 | 6 |
| Ddim yn gwybod | 7.1% | 9 | 3 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 1 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (67.5%) yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig, er mwyn cael dull cymesur o ymdrin â Safon 13: Person addas Staff Eraill (Cymwysterau) ar gyfer Chwarae Mynediad Agored.

Gwnaeth 42 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn.  Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a roddodd adborth yn gefnogol o'r newid arfaethedig, gan ddatgan y byddai'n gwneud y gofynion cymhwyso yn fwy cymesur ar gyfer lleoliadau chwarae mynediad agored, a allai helpu i fynd i'r afael â heriau recriwtio a gwella cynaliadwyedd y sector. Soniodd nifer o'r ymatebwyr hefyd y gallai'r newidiadau alluogi mwy o leoliadau chwarae mynediad agored i gofrestru neu i barhau i fod yn hyfyw (27).
- Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder y gallai newid y gofynion o ran cymwysterau effeithio'n negyddol ar ansawdd, diogelwch, neu werth canfyddedig cymwysterau gwaith chwarae (6).

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, pob un o bartneriaid Cwlwm (a ymatebodd), GCC, AGC a Chwarae Cymru yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Gofynnwyd y cwestiwn hwn yng ngrŵp ffocws Chwarae Cymru.

Croesawodd yr holl gyfranogwyr y newidiadau arfaethedig i Safon 13, gan eu gweld fel cam cadarnhaol i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio ac anawsterau gweithredol o ran Chwarae Mynediad Agored. Galwyd am ganllawiau cliriach ar oruchwylio staff ac ar hyfforddiant sefydlu, ac awgrymwyd y dylai rhaglenni sefydlu fod yn benodol i bob rôl a lleoliad. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cydnabod staff sy'n gweithio tuag at gyrraedd y safonau hyn, gan y gallai hyn gefnogi'r broses o ddatblygu a chadw gweithlu medrus, yn enwedig o ystyried yr heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig ac argymhellion Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae o blaid dull cymesur o weithredu safonau Chwarae Mynediad Agored, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r newid arfaethedig i ganran y 'staff eraill' sydd â chymhwyster lefel 2 (neu uwch) ar gyfer gwasanaethau Chwarae Mynediad Agored. Rydym wedi ystyried yr adborth a ddarparwyd fel rhan o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau i Safon 11: Meddyginiaeth i nodi'r gwahaniaeth rhwng meddyginiaeth ar bresgripsiwn a meddyginiaeth heb bresgripsiwn?**

Cafwyd cyfanswm o 140 o ymatebion i'r cwestiwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 87.1% | 122 | 47 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anghytuno | 3.6% | 5 | 4 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5.7% | 8 | 3 |
| Ddim yn gwybod | 3.6% | 5 | 1 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 0 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (87.1%) yn cytuno â'r newidiadau i Safon 11: Meddyginiaeth, er mwyn nodi'r gwahaniaeth rhwng meddyginiaeth ar bresgripsiwn a meddyginiaeth heb bresgripsiwn.

Gwnaeth 55 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a roddodd adborth yn gefnogol ac yn nodi bod gwahaniaeth cliriach rhwng meddyginiaeth ar bresgripsiwn a meddyginiaeth heb bresgripsiwn, gan ddatgan bod hyn yn helpu darparwyr, rhieni a staff i ddeall gweithdrefnau a chyfrifoldebau. Gwnaethant nodi bod y newidiadau'n gwella diogelwch i blant ac yn amddiffyn staff drwy leihau amwysedd a sicrhau gweithdrefnau priodol (37).
- Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am fwy o eglurder ar faterion penodol, megis a ellir rhoi Calpol ar gyfer trafferthion torri dannedd, y defnydd o fagiau bychain yn hytrach na photeli, y broses ar gyfer cael cydsyniad, a'r heriau o ran sicrhau cyfathrebu clir â rhieni ynghylch rhoi meddyginiaethau (18).
- Cododd nifer bach o'r ymatebwyr faterion ynghylch ymarferoldeb ac angenrheidrwydd storio pob meddyginiaeth mewn cynhwysydd sydd wedi'i gloi, yn enwedig ar gyfer meddyginiaeth frys neu pan fo angen storio mewn oergell (10). Gofynnodd Coram Pacey Cymru i ystyriaeth gael ei rhoi i'r geiriad a ddefnyddir yn y safon, gan awgrymu dewis arall yn lle 'cynhwysydd sydd wedi'i gloi', sef "caiff pob meddyginiaeth ei storio'n ddiogel yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac allan o gyrraedd plant".
- Nodwyd pryder gan rai nad yw'r newidiadau o bosibl yn mynd i'r afael yn llawn ag anghenion plant anabl neu blant ag anghenion meddygol cymhleth (7).
- Gwnaeth nifer bach o'r ymatebwyr gyfeirio at ymarferoldeb gweithredu'r safon newydd, megis cost bagiau bychan a'r angen am dempledi neu ganllawiau ar gyfer cadw cofnodion (6).

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, pob un o bartneriaid Cwlwm (ac eithrio Coram Pacey Cymru am y rhesymau a nodir uchod), GCC, AGC a Chwarae Cymru yn cytuno â'r cynnig hwn.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r diweddariadau arfaethedig i Safon 11, a chyflwyno atodiad ychwanegol. Rydym wedi ystyried y sylwadau a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad a byddwn yn cydweithio â

swyddogion iechyd i archwilio dull ymarferol sy'n seiliedig ar risg ar gyfer storio parasetamol hylifol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag ychwanegu'r canlynol at Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd)?**

**Safon newydd: Bod canrannau staff cymwysedig a staff heb gymhwyso yn cael eu cyfrifo ar sail y lleoliad cyfan, yn hytrach nag ar sail ystafell. Yr ystyrir yn ofalus sut caiff staff eu dosrannu ar draws y lleoliad ac ym mhob ystafell i sicrhau diogelwch, lles a datblygiad y plant bob amser, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol a'r rhai sy'n anabl.**

Cafwyd cyfanswm o 130 o ymatebion i'r cwestiwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 66.9% | 87 | 28 |
| Anghytuno | 6.2% | 8 | 6 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 19.2% | 25 | 10 |
| Ddim yn gwybod | 7.7% | 10 | 1 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 2 |

Roedd cytundeb eang â'r cynnig gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (66.9%) yn cytuno â'r safon newydd arfaethedig o dan Safon 13.

Gwnaeth 47 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn gefnogol ac yn nodi bod y cynnig yn rhoi canllawiau cliriach a mwy o hyblygrwydd ar gyfer dosrannu staff, yn enwedig yn ystod absenoldebau, egwyliau cinio, neu mewn lleoliadau bach a gwledig. Soniwyd ei fod yn helpu rheolwyr i lenwi bylchau dros dro pan fydd angen i staff cymwys symud rhwng ystafelloedd, gan ei gwneud yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer timau bach. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at yr argyfwng staffio a recriwtio parhaus yn y sector, ac roeddent yn ystyried bod y safon arfaethedig yn angenrheidiol i helpu lleoliadau i aros yn hyfyw (20).
- Nododd rhai o'r ymatebwyr bryderon y gallai'r newid arwain at ystafelloedd yn cael eu gadael gyda staff heb gymwysterau priodol yn unig, a allai beryglu ansawdd y gofal, y lefelau goruchwyliaeth a diogelwch plant (16).

- Gofynnodd nifer bach o'r ymatebwyr am ganllawiau clir a diamwys er mwyn sicrhau dehongliad a gweithrediad cyson gan ddarparwyr ac arolygwyr (7).
- Nododd rhai o'r ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau nad yw plant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol dan anfantais oherwydd y newid (6).

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, y rhan fwyaf o bartneriaid Cwlwm (a ymatebodd), GCC ac AGC yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Gofynnwyd y cwestiwn hwn mewn grwpiau ffocws gyda'r elusen Clybiau Plant Cymru Kids Clubs (CPCKC); Blynyddoedd Cynnar Cymru; Mudiad Meithrin a Chymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cefnogi'r cynnig i ddiwygio Safon 13 (GD) er mwyn bod canrannau staff cymwysedig a staff heb gymhwyso yn cael eu cyfrifo ar sail y lleoliad cyfan, yn hytrach nag ar sail ystafell. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn dod â mwy o eglurder a hyblygrwydd, yn enwedig wrth reoli absenoldebau staff a dosrannu personél er mwyn diwallu anghenion plant. Fodd bynnag, mynegodd rhai o'r cyfranogwyr bryderon ynghylch y term 'ystyrir yn ofalus' mewn perthynas â dosrannu staff, ac roeddent yn cwestiynu sut y byddai pobl yn dehongli ac yn cymhwyso'r safon ar draws lleoliadau gofal plant amrywiol, yn enwedig y lleoliadau â chynllun agored neu gynllun defnydd cymysg. Galwyd hefyd am fwy o ddisgresiwn i reolwyr, gan gydnabod nad yw cymwysterau ffurfiol bob amser yn cyfateb i gymhwysedd. Ystyriwyd bod hyblygrwydd o ran staffio yn arbennig o fuddiol wrth addasu i ofynion newidiol ac wrth ymateb i gymhlethdod cynyddol anghenion plant yn y sector.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r safon ychwanegol er mwyn cadarnhau bod canrannau staff yn cael eu cyfrifo ar sail y lleoliad cyfan, a bod angen i'r darparwr ystyried yn ofalus sut y caiff staff eu dosrannu ar draws y lleoliad i ddiwallu anghenion plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

**Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag ychwanegu'r canlynol at Safon 13 (GD): Person addas (Gofal Dydd)?**

**Safon newydd: Efallai, yn dibynnu ar lefelau staffio unigol pob lleoliad, bod mwy o staff yn cael eu lleoli lle nodir yr angen am gymorth penodol i helpu i ddiwallu anghenion unigol plant. Bod cymarebau oedolion: plant gofynnol yn cael eu gwarchod o hyd. Nad yw unrhyw aelod o staff a gyflogir i weithio gyda phlant penodol i ddarparu cymorth ychwanegol yn cael ei gyfrif o fewn y cymarebau staffio safonol.**

Cafwyd cyfanswm o 127 o ymatebion i'r cwestiwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 72.4% | 92 | 30 |
| Anghytuno | 0.8% | 1 | 1 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 18.1% | 23 | 6 |
| Ddim yn gwybod | 8.7% | 11 | 0 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 1 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (72.4%) yn cytuno y dylid ychwanegu'r safon ychwanegol at Safon 13.

Gwnaeth 38 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol a nodwyd na ddylid cynnwys aelodau o staff a gyflogir yn benodol i gefnogi plant unigol o fewn cymarebau staffio safonol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn cael cymorth priodol heb danseiliol ansawdd cyffredinol y gofal i blant eraill. Nododd yr ymatebwyr hefyd fod y cynnig yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i reolwyr wrth ddyrannu staff yn ôl gofynion penodol y lleoliad a'i blant (19).
- Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at heriau ymarferol yn y sector, megis anawsterau wrth recriwtio a chyllido staff ychwanegol, yn enwedig ar gyfer cymorth un-i-un. Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch cynaliadwyedd, yn enwedig yng nghyd-destun prinder staff a chyfyngiadau ariannol (11).
- Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr, gan gynnwys Chymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru am ganllawiau cliriach ynghylch sut y dylid cymhwyso'r safon yn ymarferol, ac am enghreifftiau ac eglurhad o ran sut i ddangos tystiolaeth o ddefnydd priodol o staff (8).
- Nododd rhai o'r ymatebwyr bwysigrwydd cynhwysiant a chefnogi mynediad cyfartal at ofal i blant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (6).

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, pob un o bartneriaid Cwlwm (a ymatebodd), GCC ac AGC yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Gofynnwyd y cwestiwn hwn mewn grwpiau ffocws gyda'r elusen Clybiau Plant Cymru Kids Clubs (CPCKC); Blynyddoedd Cynnar Cymru; Mudiad Meithrin a Chymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru.

Tynnodd rhai o'r cyfranogwyr sylw at y ffaith nad yw'r geiriad arfaethedig ar gyfer y safon staffio newydd mewn lleoliadau Gofal Dydd yn glir, ac y gallai arwain at ddryswch ynghylch a ellir cynnwys staff cymorth un-i-un mewn cymarebau staffio safonol. Roedd consensws bod angen canllawiau cliriach er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddehongli, yn enwedig o ran staff a gyflogir i gefnogi plant unigol, ac o ran y defnydd o dermau megis "gall", "dylai", neu "rhaid". Mynegwyd pryderon gan rai ynghylch heriau ymarferol wrth recriwtio staff cymorth addas, gwahaniaethau mewn arferion ar draws awdurdodau lleol, a'r potensial ar gyfer cymhwyso anghyson. Cytunodd rhai o'r cyfranogwyr y byddai gwell eglurder o fudd i ymarferwyr ac yn cefnogi'r broses o gydymffurfio â rheoliadau. Roedd y grwpiau'n cydnabod yr angen am y safon ychwanegol ac am eglurder ynghylch cymwysterau staff a lleoli staff.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r safon ychwanegol er mwyn egluro, lle mae angen i leoliadau leoli staff ychwanegol i ddiwallu anghenion unigol plant, ni ddylai'r cymorth staffio ychwanegol hwn effeithio ar y cymarebau staffio oedolion i blant craidd. Rydym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r safon newydd.

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid cyflogi cynorthwywyr gwarchod plant os ydynt yn gweithio tuag at y cymhwyster cynorthwyydd, ond peidio â chael eu gadael heb oruchwyliaeth gyda phlant yn ystod y cyfnod hwn, a rhaid iddynt gwblhau'r cymhwyster o fewn 6 mis?**

Cafwyd cyfanswm o 135 o ymatebion i'r cwestiwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 78.5% | 106 | 38 |
| Anghytuno | 7.4% | 10 | 7 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11.1% | 15 | 6 |
| Ddim yn gwybod | 3.0% | 4 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 3 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (78.5%) yn cytuno y gellid cyflogi cynorthwywyr gwarchod plant os ydynt yn gweithio tuag at y cymhwyster cynorthwyydd, ond na ddylid eu gadael heb oruchwyliaeth gyda phlant yn ystod y cyfnod hwn, a rhaid iddynt gwblhau'r cymhwyster o fewn 6 mis.

Gwnaeth 54 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Soniodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr am yr angen am wiriadau priodol, hyfforddiant hanfodol (cymorth cyntaf/diogelu), ac amserlen glir i'w dilyn (28).
- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gael cyfnod o 6 mis i gwblhau'r cymhwyster (15) ond mynegwyd pryderon gan rai y gallai'r cyfnod fod yn rhy fyr (4).
- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylid gadael cynorthwywyr gwarchod plant heb oruchwyliaeth nes eu bod wedi cymhwyso, ac ychwanegwyd sylwadau y dylid asesu risg goruchwyliaeth (14).
- Nododd rhai o'r ymatebwyr y gall profiad fod yr un mor ystyrlon â chymwysterau ffurfiol, yn enwedig pan gaiff ei gyfuno â hyfforddiant cadarn mewn diogelu a chymorth cyntaf (8).
- Nododd nifer bach o'r ymatebwyr fod hyblygrwydd yn cael ei werthfawrogi er mwyn galluogi gwarchodwyr plant i fodloni'r galw, llenwi bylchau staffio sydyn a gwella cynaliadwyedd (6).

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, pob un o bartneriaid Cwlwm (a ymatebodd), GCC ac AGC yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Trafodwyd y cwestiwn hwn yn y grŵp ffocws gyda Coram Pacey Cymru.

Roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno y dylai cynorthwywyr gwarchod plant fod yn gweithio tuag at gymhwyster cydnabyddedig ac na ddylid eu gadael heb oruchwyliaeth gyda phlant nes eu bod wedi cymhwyso'n llawn. Roedd cefnogaeth unfrydol i oruchwyliaeth barhaus o gynorthwywyr dan hyfforddiant, gan bwysleisio diogelwch plant ac ansawdd gofal. Trafododd y grŵp amrywiol lwybrau cymhwyso, megis y cymhwyster NVQ 3 a'r cymhwyster cynorthwyydd gwarchod plant, a nodwyd y gallai rhai llwybrau fod yn hirach na'r cyfnod cwblhau arfaethedig o chwe mis, ac y gallai problemau ariannu neu gyrsiau sy'n gorgyffwrdd rwystro unigolion. Rhannwyd adborth cadarnhaol ynghylch datblygu sgiliau dan oruchwyliaeth, gan nodi bod y profiad yn gyfle gwerthfawr i baratoi ar gyfer cofrestru yn y dyfodol ac i ddatblygu gweithlu mwy medrus. Tynnwyd sylw at heriau ariannol, yn enwedig o ran unigolion yn ariannu rhai cymwysterau eu hunain, a nodwyd bod cymwysterau gofal plant lefel 3 ar gael yn fwy hygyrch heb unrhyw gost. Ar y cyfan, roedd consensws y dylai

newidiadau flaenoriaethu lles plant, gan sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n dda, yn gymwys ac yn cael eu goruchwylio.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r newid fel y gall cynorthwywyr gwarchod plant ddechrau gweithio wrth iddynt gwblhau cymhwyster cynorthwyydd gwarchod plant, ar yr amod na fyddant yn gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain nes eu bod wedi cymhwyso; a rhaid iddynt gwblhau'r cymhwyster cynorthwyydd gwarchod plant o fewn 6 mis ochr yn ochr â bodloni'r holl ofynion eraill fel y'u nodir yn atodiad A. Rydym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gellid gadael cynorthwywyr gwarchodwyr plant ar eu pen eu hunain gyda phlant, yn unol â'r cymarebau staffio oedolion: plant, am hyd at ddwy awr y dydd i gyd os cydymffurfir â holl ofynion y canllawiau yn Atodiad A a Safon 13?**

Cafwyd cyfanswm o 135 o ymatebion i'r cwestiwn.

| **Opsiynau o ran ymateb** | **Cyfran** | **Nifer** | **Nifer y sylwadau a gafwyd** |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 74.5% | 102 | 35 |
| Anghytuno | 12.4% | 17 | 9 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7.3% | 10 | 5 |
| Ddim yn gwybod | 5.8% | 8 | 3 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 2 |

Roedd cytundeb eang â'r cynnig, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (74.5%) yn cytuno y gellid gadael cynorthwywyr gwarchodwyr plant yn gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain, yn unol â'r cymarebau staffio oedolion: plant, am gyfanswm o hyd at ddwy awr y dydd os cydymffurfir â holl ofynion y canllawiau yn Atodiad A a Safon 13.

Gwnaeth 54 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn gefnogol ac yn nodi bod y cynnig hwn yn hanfodol er mwyn ymdopi â theithio sy'n gysylltiedig â'r ysgol heb amharu ar blant iau, ac yn cytuno bod yn rhaid i gynorthwywyr

fod wedi cymhwyso ac wedi cwblhau’r holl hyfforddiant gorfodol perthnasol cyn cael eu gadael yn gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain (32).
- Nododd nifer bach o'r ymatebwyr, a Coram Pacey Cymru, er eu bod yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol, eu bod yn pryderu am yr amserlen o 2 awr, a chynigiwyd y dylid ei chynyddu i 3 awr gan y byddai hyn yn ofynnol i gefnogi gwasanaethau gwarchod plant mewn ardaloedd gwledig ac i sicrhau nad ydynt dan anfantais (4).

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, GCC ac AGC yn mynegi cefnogaeth am y cynnig hwn.  Er nad oedd holl bartneriaid Cwlwm wedi darparu adborth, roedd un yn cytuno, ac roedd dau yn anghytuno gan nodi pryderon ynghylch diffyg parhad a welir gyda meysydd sector eraill.

## Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws

Trafodwyd y cwestiwn hwn yn y grŵp ffocws gyda Coram Pacey Cymru.

Tynnodd rhai o'r cyfranogwyr sylw at y ffaith bod y terfyn dwy awr arfaethedig ar gyfer gadael cynorthwywyr gwarchodwyr plant yn gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain yn peri anawsterau ymarferol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae amseroedd teithio'n hirach ac y gall cyfarfodydd redeg dros amser. Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylai'r terfyn fod yn seiliedig ar bellter neu'r gallu i ddychwelyd o fewn amserlen benodol, yn hytrach na chyfnod penodol, er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer lleoliadau gwledig ac oedi annisgwyl. Yn ogystal, gallai terfynau amser llym effeithio'n anghymesur ar gymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith, lle mae'r opsiynau gwarchod plant yn gyfyngedig. Awgrymodd rhywfaint o'r adborth, gan gynnwys yr adborth gan Coram Pacey Cymru, y dylid ailystyried y terfyn amser o ddwy awr, gan ei gynyddu i dair awr er mwyn adlewyrchu'n well y realiti y mae gwarchodwyr plant yn ei wynebu yn y cyd-destunau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig a'r argymhellion a gyflwynwyd yn sgil yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r newid er mwyn egluro terfyn amser penodol ar gyfer faint o amser y gall cynorthwywyr gwarchod plant cymwys fod yn gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain. Rydym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

**Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:**
**Y nifer fwyaf o blant y caiff gwarchodwr plant ofalu amdanynt yw:**
**Deg o blant hyd at 12 oed;**
**O'r 10 plentyn hynny, ni all mwy na chwech fod o dan wyth oed.**
**O'r chwe phlentyn hynny, ni all mwy na phedwar fod o dan 5 oed.**
**O'r pedwar plentyn hynny, ni chaiff mwy na thri fod o dan 2 oed.**
**O'r tri phlentyn hynny, ni chaiff mwy na dau fod o dan 18 mis oed fel arfer, er bod eithriadau'n bosibl yn achos brodyr a chwiorydd.**

Cafwyd cyfanswm o 149 o ymatebion i'r cwestiwn.

| **Opsiynau o ran ymateb** | **Cyfran** | **Nifer** | **Nifer y sylwadau a gafwyd** |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 79.2% | 118 | 63 |
| Anghytuno | 12.1% | 18 | 14 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7.4% | 11 | 5 |
| Ddim yn gwybod | 1.3% | 2 | 1 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 2 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (79.2%) yn cytuno â'r cymarebau ar gyfer gwarchodwyr plant a gynigir yn y cwestiwn hwn.

Gwnaeth 85 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol a nodwyd y byddai'n cynnig mwy o hyblygrwydd drwy hwyluso rheolaeth ar amseroedd gollwng a chasglu a chefnogi rhieni ag amserlenni gwaith amrywiol. Byddai hefyd yn galluogi gofal plant ad hoc neu ofal plant brys, yn rhoi parhad gofal i deuluoedd, ac yn cynorthwyo o ran cynaliadwyedd y sector (53).
- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod angen ystyried yr effaith ar ofal a diogelwch o gofio ystod oedran eang y plant ac anghenion gwahanol plant, a nodwyd y byddai nifer is yn fwy diogel, ac y byddai asesiadau risg a gwaith monitro gofalus yn ofynnol (10).

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol, GCC ac AGC, a rhai o bartneriaid Cwlwm (a ymatebodd i'r cwestiwn hwn) yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Trafodwyd y cwestiwn hwn yn y grŵp ffocws gyda Coram Pacey Cymru.

Roedd y cyfranogwyr yn unfrydol o blaid y newidiadau arfaethedig i'r cymarebau gwarchodwyr plant, gan dynnu sylw at fwy o hyblygrwydd i deuluoedd a gwell parhad gofal, yn enwedig i frodyr a chwiorydd. Y consensws oedd y dylai barn broffesiynol arwain y broses o reoli niferoedd yn hytrach na therfynau dyddiol llym. Croesawyd y cynigion newydd gan y byddent yn cefnogi perthnasoedd sefydlog â brodyr a chwiorydd ac yn hybu morâl ymhlith gwarchodwyr plant. Roedd y gallu i ofalu am fwy o blant yn cael ei ystyried yn ffordd o sicrhau hyfywedd ariannol a gwella dewis i rieni. Pwysleisiodd rhai o'r cyfranogwyr hefyd bwysigrwydd cynnal mesurau diogelwch a sicrhau ansawdd er mwyn amddiffyn lles plant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig ac argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r newid i'r cymarebau ar gyfer gwarchodwyr plant. Rydym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

**Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai plant sydd i fod i ddechrau addysg statudol amser llawn (blwyddyn dderbyn) ym mis Medi gael eu categoreiddio fel plant dros bump oed yn ystod gwyliau'r haf yn union cyn hyn at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant?**

Cafwyd cyfanswm o 149 o ymatebion i'r cwestiwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 77.9% | 116 | 44 |
| Anghytuno | 14.8% | 22 | 16 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5.4% | 8 | 4 |
| Ddim yn gwybod | 2.0% | 3 | 2 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 2 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (77.9%) yn cytuno y gallai plant sydd i fod i ddechrau addysg statudol amser llawn (blwyddyn derbyn) ym mis Medi gael eu categoreiddio fel plant dros 5 oed yn ystod gwyliau'r haf yn union cyn hynny at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant.

Gwnaeth 68 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn.  Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol a nodwyd y byddai'r cynnig yn rhoi mwy o hyblygrwydd i warchodwyr plant ac yn eu cefnogi o ran cynaliadwyedd ariannol. Roeddent o'r farn y byddai'n helpu i gynnal parhad gofal i deuluoedd, yn caniatáu i frodyr a chwiorydd aros gyda'r un gwarchodwr plant, ac yn gwneud y broses o ymgartrefu newydd-ddyfodiaid dros gyfnod yr haf yn fwy hwylus. Nododd llawer ohonynt fod plant yn aml yn annibynnol erbyn yr haf cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol a'u bod yn gweld y newid arfaethedig fel un bach (44).
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y bwlch datblygiadol rhwng plant 4 a 5 oed, a bod hyn yn codi pryderon ynghylch diogelwch, gan nodi bod angen goruchwyliaeth agos ar rai plant 4 oed (17).
- Cyfeiriodd nifer bach o'r ymatebwyr at ddiffyg tegwch a chydraddoldeb â darparwyr gofal plant eraill, gan ddatgan y dylai'r rheolau fod yn gyson ar draws yr holl ddarparwyr gofal plant rheoleiddiedig (8).
- Gofynnodd nifer bach o'r ymatebwyr am ddiffiniadau a chanllawiau cliriach o ran y diffiniad o oedran ysgol statudol, ac a fyddai'r cynnig hwn yn berthnasol i ddiwrnodau HMS (7).

Mae rhai o'r awdurdodau lleol, GCC, AGC a'r rhan fwyaf o bartneriaid Cwlwm (a ymatebodd i'r cwestiwn hwn) yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Trafodwyd y cwestiwn hwn yn y grŵp ffocws gyda Coram Pacey Cymru.

Roedd yr holl gyfranogwyr yn cefnogi'n gryf y cynnig i ailgategoreiddio plant sydd i fod i ddechrau blwyddyn derbyn fel rhai dros 5 oed yn ystod gwyliau'r haf yn syth cyn iddynt ddechrau, gan ystyried hyn yn ateb ymarferol i wella gofal i frodyr a chwiorydd ac i sicrhau parhad gofal i deuluoedd. Ystyrir bod y newid yn cynnig mwy o hyblygrwydd i warchodwyr plant o ran rheoli cyfnodau pontio, hwyluso sesiynau ymgartrefu, a chynnal sefydlogrwydd ariannol. Roedd consensws ynghylch yr angen am ganllawiau cliriach ynghylch diffiniadau o 'addysg statudol amser llawn', amseriad gwyliau'r haf, a sut i ymdrin â diwrnodau HMS. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylai barn broffesiynol ac asesiadau risg lywio'r broes o reoli cymarebau, a bod arolygiadau ac atebolrwydd yn parhau i fod yn hanfodol ar gyfer diogelu plant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r newid arfaethedig i ddarparu hyblygrwydd yn y cymarebau ar gyfer gwarchodwyr plant yn ystod cyfnod gwyliau'r haf cyn i blentyn ddechrau blwyddyn derbyn yr ysgol ym mis Medi. Cyflwynodd rhai o'r awdurdodau lleol a phartneriaid Cwlwm awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r cynnig, gan hefyd nodi canlyniadau anfwriadol

posibl a allai effeithio ar ddiogelwch plant. Rydym wedi ystyried y sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

**Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai plant rhwng tair a phump oed, sy'n mynychu darpariaeth addysg neu gyfuniad o ddarpariaeth addysg a gofal plant cofleidiol o fewn oriau ysgol mewn lleoliad arall am bum awr neu fwy y dydd, gael eu categoreiddio fel plant dros bump oed at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant?**

Cafwyd cyfanswm o 146 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer | Nifer y sylwadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Cytuno | 73.3% | 107 | 33 |
| Anghytuno | 15.8% | 23 | 17 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 8.9% | 13 | 5 |
| Ddim yn gwybod | 2.1% | 3 | 3 |
| Dim ateb wedi'i ddewis ond sylw wedi'i roi | | | 2 |

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (73.3%) yn cytuno y gallai plant rhwng tair a phump oed, sy'n mynychu darpariaeth addysg neu gyfuniad o ddarpariaeth addysg a gofal plant cofleidiol o fewn oriau ysgol mewn lleoliad arall am bum awr neu fwy y dydd, gael eu categoreiddio fel plant dros bump oed at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant.

Gwnaeth 60 o'r ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a grybwyllodd bob thema:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol a gwnaethant nodi y byddai'r cynnig yn rhoi mwy o hyblygrwydd i warchodwyr plant a rhieni ac yn symleiddio gofal cofleidiol gan sicrhau parhad i deuluoedd. Nododd yr ymatebwyr y gallai'r cynnig helpu i gynnal busnesau gwarchod plant, gan fod y cymarebau presennol yn cyfyngu ar incwm ac yn bygwth cynaliadwyedd (33).
- Er bod 107 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, mynegodd tua hanner yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau bryderon bod plant 3 i 5 oed yn wahanol iawn yn ddatblygiadol i blant dros 5 oed, ac ychwanegodd rhai y gallai ailgategoreiddio yn ôl presenoldeb yn yr ysgol (nid oedran) leihau diogelwch, gorymestyn goruchwyliaeth, neu gynyddu'r risg o anghenion emosiynol neu ddatblygiadol heb eu diwallu (13).

- Nododd nifer bach o'r ymatebwyr y dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar gam datblygiadol unigol pob plentyn, y cyd-destun teuluol, a barn broffesiynol y gwarchodwr plant, nid yn unig ar bresenoldeb yn yr ysgol (7).
- Cyflwynodd nifer bach o'r ymatebwyr sylwadau ynghylch cydraddoldeb rhwng gwarchodwyr plant a lleoliadau gofal dydd llawn. Nodwyd y dylai'r rheolau gael eu cysoni oherwydd pryder y gallai gwarchodwyr plant wynebu mantais neu anfantais annheg os yw'r rheolau ynghylch cymarebau yn wahanol i feithrinfeydd neu leoliadau Dechrau'n Deg (6).

Mae rhai o'r awdurdodau lleol, rhai o bartneriaid Cwlwm (a ymatebodd i'r cwestiwn hwn) GCC ac AGC yn cytuno â'r cynnig hwn.

**Crynodeb o ymateb y grwpiau ffocws**

Trafodwyd y cwestiwn hwn yn y grŵp ffocws gyda Coram Pacey Cymru.

Mynegodd rhai o'r cyfranogwyr ddryswch ynghylch y diffiniad o "ddarpariaeth addysgol" a sut y dylid cyfrifo oriau o dan y newid rheol arfaethedig, gan dynnu sylw at yr angen am ganllawiau cliriach ac enghreifftiau ymarferol i gynorthwyo dealltwriaeth. Er bod y rhan fwyaf yn cytuno y byddai'r newid yn cynnig mwy o hyblygrwydd i rieni ag amserlenni heriol ac yn helpu gwarchodwyr plant i gefnogi teuluoedd, mynegwyd pryderon ynghylch effaith plant sy'n mynychu sawl lleoliad a'r potensial i warchodwyr plant gael eu gweld fel gwarchodwyr plant yn unig. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn poeni y gallai mwy o hyblygrwydd greu mannau gwan, gan danseilio rôl broffesiynol gwarchodwyr plant o bosibl. Yn ogystal, roedd galwadau am eglurder ynghylch a fyddai'r cymarebau'n aros yn gyson yn ystod gwyliau ysgol er mwyn osgoi newidiadau anymarferol. Ar draws pob safbwynt, pwysleisiodd y cyfranogwyr fod yn rhaid blaenoriaethu lles a budd pennaf plant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth i'r cynnig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r newid arfaethedig i ddarparu hyblygrwydd yn y cymarebau ar gyfer gwarchodwyr plant. Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol a phartneriaid Cwlwm, awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i'r cynnig, gan hefyd nodi canlyniadau anfwriadol posibl a allai effeithio ar ddiogelwch plant. Rydym wedi ystyried sylwadau a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid wrth weithredu'r newid.

## 4. Ymatebion i'r Cwestiynau Ymgysylltu

Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r cwestiynau ymgysylltu. Gofynnwyd cwestiynau ymgysylltu i helpu i lywio gwaith datblygu polisïau yn y dyfodol.

### Ymgysylltiad A: Pa newidiadau pellach hoffech chi eu gweld o fewn canllawiau statudol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol i gefnogi gweledigaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

Cafwyd 54 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Amlygodd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ystod eang o safbwyntiau ar sut y gallai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gefnogi gweledigaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn well. Er bod rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod y cynigion presennol yn ddigonol, nododd eraill feysydd lle y byddai eglurhad, cysondeb neu gymorth ymarferol pellach yn gwella'r broses weithredu.

Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a'u crybwyllodd:

- Gwerthfawrogir y ffaith bod gweledigaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael ei hadlewyrchu yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ond byddai rhai enghreifftiau ymarferol, astudiaethau achos, a chysylltiadau cliriach â'r gwaith cynllunio ac arferion bob dydd yn fuddiol (10).
- Ystyrir ei bod yn bwysig cael cysondeb clir rhwng y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a pholisïau ehangach, gan gynnwys Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, Cwricwlwm i Gymru, y Llwybrau Datblygu ar gyfer plant 0–3 oed, egwyddorion gwaith chwarae, a chynlluniau sicrhau ansawdd presennol. Byddai cysoni'r iaith, y strwythur a'r disgwyliadau ar draws y rhain yn cryfhau cydlyniaeth a dealltwriaeth o fewn y sector (12).
- Yr angen i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gael eu dehongli a'u cymhwyso'n gyson ar draws darparwyr, awdurdodau lleol ac arolygwyr (4).
- Pwysigrwydd mynediad at hyfforddiant a chymorth i'r gweithlu, ynghyd â chynnwys datblygiad proffesiynol i gefnogi hyder a gallu staff (5).
- Mae angen i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol adlewyrchu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion datblygiadol amrywiol yn well, a rhaid i ddarpariaeth o ansawdd uchel fod yn ymatebol ac yn gynhwysol (3).
- Dylai'r bennod ar ddarpariaeth o ansawdd uchel roi mwy o bwyslais ar hawliau plant, gan gynnwys gwell cysondeb â CCUHP a ffocws cliriach ar arferion sy'n canolbwyntio ar y plentyn (3).

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r sylwadau a gyflwynwyd er mwyn penderfynu a oes angen gwneud addasiadau ychwanegol i'r newidiadau arfaethedig yn ystod y

diweddariad hwn i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac i helpu i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu polisïau.

**Ymgysylltiad B: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r bennod 'Beth ydym yn ei olygu wrth Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel'?**

Cafwyd 47 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn dangos cefnogaeth eang i'r bennod ar Ddarpariaeth o Ansawdd Uchel, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu ei heglurder a'i phwyslais ar egwyddorion craidd. Awgrymodd rhai gyfleoedd i fireinio'r bennod, i wella ei chydymffurfiaeth â chanllawiau ehangach, ac i gefnogi gweithrediad mwy cyson ledled Cymru.

Crynhoir y canfyddiadau allweddol o'r sylwadau isod ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a'u crybwyllodd:

- Mae'r bennod yn glir, yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu disgwyliadau presennol y sector, ac mae'n cyfleu'n effeithiol yr hyn yw darpariaeth o ansawdd uchel (12).
- Byddai'n fanteisiol i'r bennod gynnwys cyfeiriadau penodol at fframweithiau statudol ac ymarferol ehangach (11). Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru, canllawiau Dechrau'n Deg, y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, CCUHP, egwyddorion gwaith chwarae, a dulliau ansawdd eraill sy'n benodol i'r sector.
- Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r ddogfen ddefnyddio terminoleg gyson, tynnu sylw at welliannau parhaus (a chydnabod cyfyngiadau ymarferol), ac adlewyrchu pwysigrwydd gwaith chwarae a gofal plant, gan sicrhau bod y safonau a'r cymorth yn deg ac yn gyfredol ar gyfer pob math o leoliad (10).
- Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y gellid cryfhau'r bennod drwy gynnwys enghreifftiau syml, ymarferol o arferion o ansawdd uchel, yn enwedig i gefnogi staff newydd neu lai profiadol (3).
- Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylid trin y bennod fel dogfen fyw, a'i diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu arferion sy'n esblygu a datblygiadau yn y sector (3).
- Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder y gallai'r bennod gael ei dehongli mewn ffordd sy'n creu baich gormodol ar ddarparwyr neu'n lleihau hyblygrwydd o ran y modd y mae darpariaeth o ansawdd uchel yn cael ei chyflawni (3).

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn er mwyn penderfynu a oes angen gwneud addasiadau ychwanegol i'r

newidiadau arfaethedig yn ystod y diweddariad hwn i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac i helpu i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu polisïau.

**Cwestiwn Ymgysylltu C: Ydych chi'n meddwl y byddai ychwanegu enghreifftiau o fathau o ddarpariaeth o fewn diffiniadau pob un o is-gategorïau gofal dydd o gymorth?**

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 98.4% | 120 |
| Nac ydw | 1.6% | 2 |

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried yr ymateb i'r cwestiwn hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ychwanegu enghreifftiau o fathau gwahanol o ddarpariaeth at y diffiniad o bob is-gategori gofal dydd.

**Cwestiwn Ymgysylltu D – Ydych chi'n meddwl bod yr Atodiad yn y Safonau - Canllawiau ar gyfer gweinyddu parasetamol hylifol pan fydd plant yn mynd yn sâl mewn lleoliad, yn helpu i esbonio beth y gall y lleoliad ei wneud ac na all ei wneud mewn perthynas â gweinyddu parasetamol hylifol yn y sefyllfaoedd a ddisgrifir?**

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 94.8% | 128 |
| Nac ydw | 5.2% | 7 |

Cafwyd 55 o sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebion yn amlygu cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i gynnwys canllawiau cliriach, ond yn tynnu sylw hefyd at feysydd lle y gallai fod angen eglurder neu hyblygrwydd ychwanegol. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu a godwyd, ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at bob thema:

- Mae'r Atodiad yn rhoi canllawiau clir, defnyddiol a hygyrch, mae'n cryfhau arferion diogel, yn dileu amwysedd blaenorol, ac yn cynnig hyder i ymarferwyr newydd a phrofiadol (35).
- Mae'r Atodiad yn ddefnyddiol, mae angen eglurhad ychwanegol mewn meysydd allweddol (18). Mae'r rhain yn cynnwys:

    - ➢ gwahaniaethu rhwng pryd y gellir rhoi parasetamol ar gyfer salwch neu ar gyfer anghysur (e.e., trafferthion torri dannedd)
    - ➢ egluro a yw bagiau bychain yn orfodol neu a yw poteli'n dal yn dderbyniol
    - ➢ diffinio'r disgwyliadau o ran cydsyniad (ar lafar neu'n ysgrifenedig)

- mireinio'r geiriad i osgoi camddealltwriaeth

- Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y gallai rhieni gymryd ar gam y gellir rhoi parasetamol fel mater o drefn, neu y gall plant aros yn y lleoliad ar ôl ei gael. Mae angen negeseuon clir iawn ynghylch pryd y mae'n rhaid casglu plant a'r amgylchiadau cyfyngedig lle y gellir rhoi parasetamol (7).
- Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch defnyddio bagiau bychain yn hytrach na photeli, a phryd y gellid caniatáu poteli, o'u defnyddio'n briodol (6). Roedd y pryderon yn cynnwys y canlynol:

  - goblygiadau cost
  - anawsterau ymarferol yn achos plant iau y mae angen hanner dosau arnynt
  - gwastraff diangen
  - heriau wrth gael gafael ar fagiau bychain

- Nododd rhai fod yn rhaid i'r Atodiad fod yn gwbl gyson â chanllawiau'r GIG neu Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn enwedig o ran trothwyon tymheredd, poen torri dannedd, a symptomau ar ôl brechu (4).
- Nododd rhai y gall parasetamol fod yn rhan angenrheidiol o gynlluniau gofal iechyd unigol wrth weithio gyda phlant ag anghenion meddygol sylweddol, a bod angen i'r Atodiad ystyried achosion lle darperir gofal arbenigol (3).
- Gofynnodd rhai am ganllawiau cliriach ynghylch pryd i gysylltu â rhieni, pryd i droi at GIG 111, a sut i ymdrin ag achosion o oedi neu deuluoedd nad ydynt yn ymateb (4).

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn gyda'i phartneriaid er mwyn penderfynu a oes angen gwneud addasiadau ychwanegol i'r newidiadau arfaethedig yn ystod y diweddariad hwn i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac i helpu i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu polisïau.

**Cwestiwn Ymgysylltu E: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y newidiadau arfaethedig i'r Safonau ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
**Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 76.7% | 92 |
| Nac ydw | 23.3% | 28 |

Cafwyd 52 o sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebion yn cydnabod ymrwymiad cryf cyson i hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant a chwarae, ochr yn ochr â phryderon ynghylch gallu'r gweithlu a mynediad at hyfforddiant.

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu allweddol a godwyd, ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at bob thema:

- Cefnogaeth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru mewn lleoliadau (18). Roedd y sylwadau'n cyfeirio at werth dwyieithrwydd a phwysigrwydd ymgorffori'r Gymraeg mewn arferion bob dydd, ac yn croesawu cyfleoedd i atgyfnerthu cysylltiad plant â'r iaith. Nododd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn ymfalchïo mewn defnyddio'r Gymraeg ac roeddent o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn galluogi neu'n gwella'r ddarpariaeth ymhellach.
- Yr angen am well mynediad at hyfforddiant ac adnoddau (10). Nododd rhai o'r sylwadau fod angen mwy o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg, gwell mynediad at ddeunyddiau dwyieithog, ffyrdd cliriach o gyfeirio at gymorth, ac offer ymarferol i hwyluso defnydd cyson o'r iaith.
- Pryderon ynghylch prinder staff Cymraeg eu hiaith (6). Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at anawsterau recriwtio a oedd yn cyfyngu ar allu lleoliadau i weithredu disgwyliadau o ran y Gymraeg yn llawn, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r galw gan deuluoedd yn isel. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn galw am gymorth priodol er mwyn peidio ag effeithio ar yr heriau presennol a wynebir gan y gweithlu.
- Nododd rhai o'r ymatebwyr na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith negyddol ar eu darpariaeth, neu eu bod eisoes yn cyflawni arferion cryf o ran y Gymraeg (7).
- Cyfeiriodd rhai o'r sylwadau at yr angen am ddisgwyliadau clir a chyson ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg (8). Roedd hyn yn cynnwys galwadau am esboniad gwell o'r gofynion, enghreifftiau cliriach o integreiddio'r Gymraeg ar draws y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac enghreifftiau ychwanegol i helpu lleoliadau i ddeall y disgwyliadau ar lefel ymarferol.
- Nododd rhai y byddai cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol, adnoddau dwyieithog, a chysylltiad bob dydd â'r iaith yn fuddiol (5). Ychwanegodd yr ymatebwyr y gallai ymgorffori'r Gymraeg yn naturiol yn yr amgylchedd dyddiol fod yn fwy ymarferol ac effeithiol na dysgu'r iaith yn ffurfiol.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau a ddaeth i law fel rhan o'r gwaith parhaus o ddatblygu polisïau ac fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig.

### Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer |
| --- | --- | --- |

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 59.4% | 57 |
| Nac ydw | 40.6% | 39 |

Cafwyd 36 o sylwadau i'r cwestiwn hwn.

At ei gilydd, ni nododd yr ymatebwyr effeithiau andwyol yn deillio o'r newidiadau arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n canolbwyntio ar yr angen am eglurder, ystyriaethau o ran gweithredu ymarferol, a chyfleoedd i gryfhau neu symleiddio wrth ddiweddaru'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu a godwyd, ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at bob thema.

- Ni ddisgwylir i'r newidiadau arfaethedig arwain at unrhyw effeithiau negyddol. Nododd rhai fod y cynigion yn cyd-fynd ag arferion presennol, neu nad oeddent yn rhagweld unrhyw ganlyniadau niweidiol (11).
- Gallai'r newidiadau arfaethedig annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau, cefnogi'r Cynnig Rhagweithiol, a hyrwyddo amgylchedd mwy dwyieithog (6).
- Cyfeiriodd rhai at yr angen am hyfforddiant parhaus ac amser i ddatblygu'r gweithlu, ac at yr angen i sefydlu diwylliant cefnogol sydd â'r gallu i weithredu'n hyderus, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu rhoi ar waith ymwreiddion effeithiol (4).

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn i helpu i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu polisïau ac fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig.

**Cwestiwn Ymgysylltu F: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu addasu'r newidiadau arfaethedig i'r Safonau er mwyn: sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

| Opsiynau o ran ymateb | Cyfran | Nifer |
|---|---|---|
| Gellid | 73.5% | 72 |
| Na ellid | 26.5% | 26 |

Cafwyd 30 o sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch effaith bosibl y newidiadau arfaethedig ar y Gymraeg.

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu a godwyd, ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at bob thema.

- Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnig cyfleoedd i wella'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg a'i gweledede mewn lleoliadau gofal plant a chwarae (16). Gallai mesurau o'r fath helpu i godi proffil y Gymraeg a sicrhau mynediad cyfartal i blant a rhieni yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nododd y sylwadau werth y canlynol:

    - Darparu adnoddau dwyieithog, enghreifftiau ymarferol, a hyfforddiant staff i gefnogi defnydd bob dydd o'r Gymraeg.
    - Annog y defnydd o ymadroddion, caneuon, arwyddion a chyfarchion Cymraeg syml i normaleiddio'r iaith mewn lleoliadau.
    - Cefnogi staff drwy gyfleoedd hygyrch i ddysgu Cymraeg.
    - Alinio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn fwy penodol â strategaeth Cymraeg 2050 a hyrwyddo arfer dwyieithog.
    - Cynnig canllawiau cliriach, gan gynnwys astudiaethau achos, ar sut y gellir ymgorffori'r Gymraeg yn gymesur ar draws mathau gwahanol o ddarpariaeth.

- Cyfeiriodd rhai at heriau ymarferol a allai ddylanwadu ar ganlyniadau o ran y Gymraeg (5). Roedd y rhain yn cynnwys: anhawster recriwtio staff Cymraeg eu hiaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig; Mynediad cyfyngedig at ofal cofleidiol neu ofal y tu allan i'r ysgol cyfrwng Cymraeg; Risg y gallai rhai cynigion (e.e., hyblygrwydd o ran y cymarebau neu'r diffiniadau o blant sy'n codi'n 5 oed) leihau mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn anfwriadol os na chânt eu rhoi ar waith yn ofalus. Cyfeiriodd rhai sylwadau at yr angen i sicrhau nad yw newidiadau'n creu anfantais yn anfwriadol o ran dewisiadau cyfrwng Cymraeg i deuluoedd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig.

**Cwestiwn Ymgysylltu G: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol ar y Gymraeg. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, gallwch eu nodi yma:**

Cafwyd 30 o sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Mae dadansoddiad o'r sylwadau yn amlygu amrywiaeth o safbwyntiau yn ymwneud â'r Gymraeg, gallu'r gweithlu, a'r cymorth gofynnol i ymgorffori arferion cyfrwng

Cymraeg a dwyieithog yn effeithiol. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu allweddol a godwyd, ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at bob thema.

- Yr angen am gymorth gwell i helpu lleoliadau i gryfhau eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg (8). Roedd hyn yn cynnwys ceisiadau am gyfleoedd hyfforddi ychwanegol, gwersi Cymraeg rhad ac am ddim neu hygyrch, mwy o gymorth Cymraeg peripatetig, a chanllawiau cliriach ynghylch disgwyliadau i ddarparwyr. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at bwysigrwydd cefnogi dulliau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn ffordd ymarferol a chyraeddadwy.
- Heriau parhaus yn ymwneud â staffio, yn enwedig o ran recriwtio staff Cymraeg eu hiaith (4). Mynegwyd pryderon y gallai disgwyliadau uwch yn gysylltiedig ag iaith waethygu'r pwysau recriwtio presennol oni bai bod hynny'n cael ei ategu gan gymorth priodol.
- Cais am ganllawiau cliriach a mwy hygyrch i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r disgwyliadau o ran y Gymraeg (7). Roedd hyn yn cynnwys galwadau am esboniad mwy manwl o'r Cynnig Rhagweithiol. Soniodd yr ymatebwyr am bwysigrwydd sicrhau nad yw lleoliadau'n cael eu cosbi lle mae rhwystrau y tu hwnt i'w rheolaeth.
- Nododd rhai o'r ymatebwyr na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith benodol ar eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg (5).

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau er mwyn penderfynu a oes angen gwneud addasiadau ychwanegol i'r newidiadau arfaethedig yn yr ymgynghoriad yn ystod y diweddariad hwn i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu polisïau a diweddaru'r Asesiad Effaith Integredig.

### Cwestiwn Ymgysylltu H: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch gweithio tuag at y gofynion?

Cafwyd 61 o sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Mynegodd yr ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau yn ymwneud â staffio, cymwysterau, cynaliadwyedd, a gweithredu lleoliadau gofal plant. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu allweddol a godwyd, ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at bob thema.

- Cefnogaeth i'r cynnig i barhau neu ehangu'r dull gweithredu "gweithio tuag at" (26). Nododd rhai o'r ymatebwyr fod hyn yn cefnogi mynediad i'r gweithlu, yn helpu i reoli prinder staff, ac yn gwella cynaliadwyedd.
- Soniodd rhai o'r ymatebwyr am anawsterau wrth recriwtio a chadw staff, y frwydr barhaus i recriwtio staff cymwys, a'r risg y gallai mwy o ofynion waethygu'r prinder staff (13). Tynnodd rhai sylw at y ffaith bod y pwysau presennol ar y gweithlu eisoes yn effeithio ar sefydlogrwydd gwasanaethau.

- Roedd rhai o'r ymatebwyr yn croesawu mwy o hyblygrwydd yn y trefniadau staffio, gan weld hyn yn hanfodol ar gyfer rhai lleoliadau, er enghraifft lleoliadau bach neu wledig (6). Nodwyd y byddai hyblygrwydd yn helpu o ran cynnal parhad gofal ac addasu i alw amrywiol.

Ar y cyfan, mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth i'r cynnig i gynnal neu ehangu llwybrau cymwysterau hyblyg, yn enwedig yng ngoleuni'r heriau o ran recriwtio a chadw staff. Er bod rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn helpu lleoliadau i aros yn gynaliadwy, pwysleisiodd eraill yr angen am ganllawiau a mesurau diogelu clir i sicrhau ansawdd, yn enwedig i blant ag anghenion ychwanegol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau fel rhan o'r gwaith parhaus o ddatblygu polisïau.

**Cwestiwn Ymgysylltu I: Pa sylwadau, os o gwbl, sydd gennych ynghylch yr asesiadau effaith drafft, yn enwedig yr effeithiau ar blant, teuluoedd a'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eich barn chi)?**

Cafwyd 35 o sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr adborth ar yr asesiadau effaith drafft yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau, a thynnodd yr ymatebwyr sylw at sawl maes sydd angen sylw i sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig yn cefnogi plant, teuluoedd a'r sector gofal plant yn effeithiol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod yr asesiadau effaith yn crynhoi llawer o'r materion allweddol sy'n wynebu'r sector. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn dibynnu ar gysondeb cenedlaethol cydlynol, cyllid digonol, strwythurau cynaliadwy ar gyfer y gweithlu, a chymorth ymarferol er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r newidiadau arfaethedig ar waith mewn ffordd effeithiol a theg.

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu a godwyd, ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at bob thema.

- Heriau parhaus yn ymwneud â chyllid, fforddiadwyedd, a chynaliadwyedd a nododd rhai o'r ymatebwyr fod darparwyr gofal plant yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol, yn enwedig lle mae angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant anabl a phlant ag ADY (12). Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at y caledi economaidd ehangach a wynebir gan deuluoedd, gan nodi bod yn rhaid i newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol osgoi creu rhagor o rwystrau ariannol.

- Galwodd rhai o'r ymatebwyr am ymrwymiadau cliriach ynghylch nodi anawsterau'n gynnar, hyfforddiant staff arbenigol, addasiadau rhesymol, a chymorth cyson ni waeth beth fo arferion y cod post neu'r awdurdod lleol er mwyn cefnogi plant anabl a phlant ag ADY (11).
- Cyflwynodd rhai o'r ymatebwyr sylwadau ar y newidiadau arfaethedig yn ymwneud â chymarebau gwarchodwyr plant, darpariaeth gofleidiol, a hyblygrwydd o ran y modelau cyflawni. Roedd llawer o'r farn y gallai'r newidiadau wella hygyrchedd a helpu rhieni i reoli ymrwymiadau gwaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig (10). Fodd bynnag, gwnaeth un cyfranogwr argymell y dylid bod yn bwyllog er mwyn sicrhau nad yw hyblygrwydd yn tanseilio ansawdd na hawliau plant (1).
- Nododd rhai fod diffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cyfeirio teuluoedd at leoliadau cyfrwng Saesneg oherwydd cost neu argaeledd, a gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a chynlluniau cysylltiedig gefnogi parhad y Gymraeg yn well (6).
- Gwnaeth rhai gyfeirio at faterion yn ymwneud â recriwtio staff, cadw staff, cymwysterau a hyfywedd y sector, gan nodi effaith cyflogau isel, heriau o ran bodloni gofynion ansawdd awdurdodau lleol gwahanol (megis Dechrau'n Deg), ac anawsterau o ran sicrhau staff Cymraeg eu hiaith. Roedd y materion hyn yn cael eu hystyried yn risgiau posibl i ansawdd a mynediad cyfartal (7).
- Roedd rhai'n croesawu'r cyfeiriadau cryfach at CCUHP, a phwysleisiwyd yr angen i barhau i ganolbwyntio ar y plentyn wrth ystyried cymarebau, staffio a newidiadau i drefniadau ariannu, ac na ddylai egwyddorion budd pennaf gael eu diystyru oherwydd pwysau economaidd neu weithredol (5).
- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at effaith ehangach tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ar fynediad at ofal plant *(7)*. Nodwyd bod teuluoedd yn aml yn lleihau eu horiau gwaith neu'n tynnu plant yn ôl o'r lleoliadau a ffefrir ganddynt oherwydd pwysau ariannol, cyfyngiadau o ran teithio neu ddarpariaeth anhyblyg. Roedd y materion hyn yn cael eu hystyried yn arbennig o ddifrifol i deuluoedd gwledig a'r rhai sy'n dymuno cael gofal cyfrwng Cymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig.

**Cwestiwn Ymgysylltu J: Mae Asesiad drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd wedi'i ddatblygu fel rhan o'r ymarfer hwn. I'n helpu ymhellach, a fyddech cystal ag ychwanegu unrhyw sylwadau ar unrhyw effeithiau rydych chi'n teimlo y gallai'r newidiadau eu cael ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eich barn chi)?**

Cafwyd 28 o sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebion i'r adran hon o'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i gryfhau cydraddoldeb a chynhwysiant yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid parhau i gryfhau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo mynediad teg at ofal plant o

ansawdd uchel i bob plentyn. Pwysleisiwyd hefyd bod gwireddu'r nodau hyn yn llwyddiannus yn dibynnu ar gymorth ymarferol i'w gweithredu, buddsoddiad yn y gweithlu, a sylw i anghenion amrywiol lleoliadau a theuluoedd ledled Cymru.

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu a godwyd, ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at bob thema:

- Nododd rhai ymatebwyr fod yn rhaid i newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn cael eu cynnwys yn llawn mewn arferion bob dydd, nid drwy ddatganiadau polisi yn unig. Croesawodd yr ymatebwyr y cynigion ar gyfer defnyddio staff mewn ffordd fwy hyblyg a chymorth ychwanegol, gan nodi bod plant ag anghenion iechyd cymhleth yn aml yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at ofal plant. Roedd cyllid digonol ac arweiniad ymarferol yn ffactorau a godwyd a allai effeithio ar y broses o roi trefniadau cynhwysol ar waith (16).
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr at yr angen am hyfforddiant staff cynhwysfawr sy'n cwmpasu ADY, ymwybyddiaeth o anabledd, cyfathrebu cynhwysol, cymhwysedd diwylliannol, a'r broses o weithredu arferion gwrth-hiliol. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd mynediad at lwybrau hyfforddi cyson, hygyrch a ariennir, ochr yn ochr â phryderon y gallai'r pwysau ar y gweithlu danseilio cynhwysiant os na chaiff hyfforddiant ei gefnogi'n ddigonol (11).
- Roedd rhai o'r ymatebwyr o blaid ymgorffori cynhwysiant mewn darpariaeth bob dydd, ynghyd â chysondeb cliriach rhwng y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, megis Cymraeg 2050 a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (14).
- Soniodd rhai o'r ymatebwyr am gyflwyniad ac eglurder y dogfennau, a chyflwynwyd awgrymiadau er mwyn gwella eu darllenadwyedd (e.e. ffontiau hygyrch, bylchau), darparu terminoleg gliriach, a sicrhau ei bod yn hawdd dod o hyd i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r canllawiau cysylltiedig. Byddai'r ymatebwyr yn croesawu enghreifftiau ymarferol, astudiaethau achos a geiriad cliriach ynghylch y gofynion, yn enwedig o ran rhoi meddyginiaethau ac “addasiadau rhesymol” (6).
- Soniodd rhai o'r ymatebwyr am bwysigrwydd mynd i'r afael ag anghenion diwylliannol ac ieithyddol ar draws arferion gofal plant, gan bwysleisio pwysigrwydd parchu diwylliannau lleiafrifol, sicrhau bod ystyriaethau deietegol a chrefyddol yn cael eu bodloni, a chefnogi hunaniaethau ieithyddol plant ar draws sawl iaith (6).

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig.

**Cwestiwn Ymgysylltu K: Oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynghylch y Safonau?**

Cafwyd 34 o sylwadau i'r cwestiwn hwn.

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r themâu a godwyd, ochr yn ochr â nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at bob thema.

- Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at faterion yn ymwneud â chymarebau oedolion i blant a'r pwysau ehangach o ran capasiti mewn lleoliadau. Roedd eu sylwadau'n tynnu sylw at yr angen am fwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion teuluol, ymdrin â threfniadau cofleidiol, a chefnogi cynaliadwyedd. Nododd yr ymatebwyr y byddai cymarebau uwch neu lai caeth, wedi'u cefnogi gan asesiad risg cymesur, yn galluogi darparwyr i ymateb mewn modd mwy effeithiol i alw amrywiol a chefnogi plant mewn ffordd fwy cyson (10).
- Mynegodd rhai bryderon ynghylch y disgwyliadau o ran cymwysterau i staff a chynorthwywyr gwarchod plant. Nododd yr ymatebwyr yr heriau o ran gofynion cymwysterau, anawsterau recriwtio, a'r angen am eglurder ynghylch disgwyliadau i'r rhai sy'n "gweithio tuag at" gymwysterau. Pwysleisiodd rhai yr angen am ddull cenedlaethol cyson o ddatblygu'r gweithlu, gan gynnwys canllawiau cliriach a llwybrau hyfforddi hygyrch (5).
- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod gwarchodwyr plant yn aml yn teimlo na roddir digon o barch iddynt o gymharu â mathau eraill o ddarpariaeth. Nodwyd bod angen mwy o gydnabyddiaeth i rôl gwarchodwyr plant, gwell cymorth i sicrhau eu cynaliadwyedd, a chydnabyddiaeth o gyfraniad unigryw ymarferwyr sy'n gweithio gartref a'r pwysau ariannol y maent yn ei wynebu (6).

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Asesiad Effaith Integredig.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac i fynd i'r grwpiau ffocws.

Mae'r holl ymatebion o ffurflen ymateb yr ymgynghoriad a'r grwpiau ffocws wedi cael eu hadolygu'n drylwyr. Fodd bynnag, gan mai dogfen gryno yw hon, nid yw pob sylw a gyflwynwyd wedi'i gofnodi yn y ddogfen hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau a bydd yn bwrw ymlaen â'r newidiadau canlynol:

1. Newid cynllun pob safon i gynnwys llais y plentyn a chanlyniad llesiant, gan symud i fformat HTML.
2. Ychwanegu rheoliadau cysylltiedig at bob safon.
3. Ychwanegu rhagor o ganllawiau at bob safon.
4. Diweddaru'r bennod 'beth rydym yn ei olygu wrth ddarpariaeth o ansawdd uchel?' fel y dangosir yn y ddogfen ymgynghori.
5. Gweithredu'r diffiniad newydd ar gyfer Chwarae Mynediad Agored, ac ystyried unrhyw welliannau eraill mewn cydweithrediad â Chwarae Cymru.
6. Diweddaru'r gofynion o ran Cymorth Cyntaf ar gyfer Chwarae Mynediad Agored. Byddwn yn gweithio ar y cyd â Chwarae Cymru i ystyried unrhyw welliannau eraill mewn ymateb i'r adborth a roddwyd yn ystod yr ymgynghoriad.
7. Diweddaru'r gofynion 'staff eraill' ar gyfer Chwarae Mynediad Agored. Byddwn yn gweithio ar y cyd â Chwarae Cymru i ystyried unrhyw welliannau gofynnol eraill wrth weithredu'r newid.
8. Diweddaru Safon 11 a chyflwyno atodiad ategol ychwanegol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.
9. Ychwanegu safon ychwanegol i egluro bod canrannau'r staff yn cael eu cyfrifo ar sail y lleoliad cyfan. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried unrhyw welliannau gofynnol eraill i wella eglurder.
10. Ychwanegu safon i egluro na ddylai aelodau ychwanegol o staff a gyflogir i weithio gyda phlant penodol gael eu cyfrif yn y cymarebau cyffredinol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried unrhyw welliannau gofynnol i eiriad y safon.
11. Diwygio'r safon i ganiatáu i gynorthwywyr gwarchod plant ddechrau cyflogaeth wrth iddynt weithio tuag at y cymhwyster gofynnol, gyda therfyn amser o 6 mis i fodloni'r amodau fel y'u nodir yn yr atodiad ategol.
12. Diwygio'r safon er mwyn egluro terfyn amser penodol ar gyfer faint o amser y gall cynorthwywyr gwarchod plant fod yn gyfrifol am blant ar eu pen eu hunain.
13. Diweddaru'r cymarebau ar gyfer gwarchodwyr plant ac, mewn cydweithrediad â Coram Pacey Cymru, ystyried unrhyw welliannau eraill.
14. Gweithredu safon ychwanegol fel y gall plant sydd i fod i ddechrau addysg statudol amser llawn (blwyddyn derbyn) ym mis Medi gael eu categoreiddio fel plant dros 5 oed yn ystod gwyliau'r haf yn union cyn hynny at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant. Byddwn yn ystyried y

sylwadau mewn cydweithrediad â Coram Pacey Cymru er mwyn penderfynu a oes angen unrhyw welliannau eraill.

15. Diwygio'r safon bresennol 15.2 (Gwarchodwyr Plant) i adlewyrchu'r ffaith y gallai plant 3-5 oed sy'n mynychu darpariaeth addysgol neu gyfuniad o ddarpariaeth addysgol a gofal plant cofleidiol o fewn oriau ysgol mewn lleoliad arall am bum awr neu fwy y dydd gael eu categoreiddio fel rhai dros 5 oed at ddibenion y cymarebau sy'n berthnasol i warchodwyr plant. Byddwn yn ystyried y sylwadau mewn cydweithrediad â Coram Pacey Cymru er mwyn penderfynu a oes angen unrhyw welliannau eraill.

Rydym yn bwriadu rhyddhau fersiwn wedi'i diweddaru o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar ffurf dogfen HTML, gan gynnwys y newidiadau a gymeradwyir, yn Haf 2026. Bydd safonau annibynnol ar gyfer gwasanaethau Chwarae Mynediad Agored cofrestredig hefyd yn cael eu cyhoeddi yn unol ag argymhelliad Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Bydd yr holl ddiweddariadau'n dod i rym cyn gynted ag y cânt eu cyhoeddi.

## Atodiad: Rhestr ymatebwyr[1]

Fforwm Cymru Gyfan Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu

Cyngor Ynys Môn

Cymdeithas Chwarae Llandeilo Ferwallt

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Meithrinfa Busy Bees

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Cyngor Caerdydd (Cymorth Cynnar)

Plant yng Nghymru

Clwb Cymer Ofal

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Coram PACEY Cymru

Dwylo hapus childminding

Blynyddoedd Cynnar Cymru

Emma’s Childminding Services

ESTYN

Cronfa'r Teulu

Dechrau'n Deg – Casnewydd

Gemma - gwarchodwr plant

Cyngor Sir Ceredigion

Julie Woods

Let's Grow - Terri Steele Childminding

Llinos Bowen - gwarchodwr plant

Little achievers childminding

Little Pandas childcare

Little Rosebuds Childcare (Gwarchodwr Plant)

Melanie Phillips - gwarchodwr plant

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

[1]Dylid nodi nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r ymatebwyr, dim ond yr ymatebwyr nad oeddent yn dymuno i'w hymateb fod yn ddienw y mae'n eu cynnwys.

Michelle Johnson - gwarchodwr plant

Cyngor Sir Fynwy

Mudiad Meithrin

NDNA Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Plantos Ltd

Chwarae Cymru

Rebekah Robertson childminders

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Sarah - gwarchodwr plant

Sarah Jones - gwarchodwr plant

Sarah Meyer - gwarchodwr plant

Samantha Morgan

Gofal Cymdeithasol Cymru

St Peter's Out of School Care Limited

The Lil Rascals

Tina Freitas

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Gwasanaeth Chwarae Torfaen

Viv Morgan - gwarchodwr plant

[1]Dylid nodi nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r ymatebwyr, dim ond yr ymatebwyr nad oeddent yn dymuno i'w hymateb fod yn ddienw y mae'n eu cynnwys.